



Cyfarfod: Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu
Lleoliad: Siambrau'r Cyngor, Hwlfordd
Dyddiad: 17 Chwefror 2016
Amser: 10:00 – 12:20



<u>Aelodau:</u>	Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG/DD)
<u>Hefyd yn bresennol:</u>	Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H) Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR) Mrs Kerrie Phillips, Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth, SCHTh (KP) Ditectif Uwch-arolygydd Richard Lewis, Adran Safonau Proffesiynol (RL) Ditectif Uwch-arolygydd Steve Cockwell, Pennaeth yr Uned Diogelu'r Cyhoedd (SC) Mrs Anne Williams, Swyddog Cymorth (AW)

CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/01/2016		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
PAB 293	Yr Heddlu i rannu'r proffil galw, ac asesiad o'r effaith ar gamau gweithredu a gymerwyd i leihau gofynion a nodwyd, â'r CHTh erbyn diwedd Ionawr	Ar waith – ceisiwyd erbyn y BAH nesaf
PAB 294	Yr Heddlu i roi cynlluniau prosiectau gweithredol manwl i'r CHTh sy'n tanategu'r cynllun arbedion Gwario'n Ddoeth erbyn diwedd Ionawr	Cwblhawyd
PAB 295	Adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad o ddalfeydd i'r Bwrdd Plismona erbyn diwedd Mawrth	Ar waith – disgwylir hyn erbyn diwedd Mawrth
PAB 296	Yr Heddlu i ddarparu atebion i gwestiynau mewn perthynas â maint a phatrymau seiberdroseddu a newid mewn achosion sy'n weddill erbyn diwedd yr wythnos	Ar waith
PAB 297	Darparu incwm a geir drwy erlyniadau troseddau traffig a arweinir gan yr heddlu a chasglu arian sy'n ddyledus i SCHTh erbyn diwedd Ionawr	Cwblhawyd
PAB 298	Darparu rhestr o leoliadau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned cyfredol a rhai posibl i'r CHTh erbyn diwedd Ionawr	Ar waith
PAB 299	Yr Heddlu i roi cynllun manwl erbyn diwedd Ionawr o brosiectau Uned Plismona'r Ffyrdd ar gyfer gwario £181,000 o arian dros ben o ran y cynllun Y Ffordd i Ddiogelwch	Cwblhawyd – PSA i gadarnhau
PAB 300	Darparu mwy o fanylion am y diweddariad IP999	Cwblhawyd –

	i SCHTh erbyn diwedd Ionawr	PSA i gadarnhau
PAB 301	Yr Heddlu i roi statws cyfredol y cynllun cyflwyno plismona symudol i'r CHTh	Cwblhawyd

Agorodd y CHTh y cyfarfod, gan groesawu pawb i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu mis Chwefror. Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth y Prif Gwnstabl Simon Prince, yr Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl, a Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa.

Cofnodion y cyfarfod atebolrwydd a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2016 a materion yn codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Mewn perthynas â chymau gweithredu'n codi o'r cyfarfod ar 18/01/2016, darparodd y DBG/DD ddiweddariad ar gamau gweithredu sy'n weddill.

Mae'r gwaith ar y proffil galw'n parhau.

Roedd buddsoddi'n sylweddol yn yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu wedi gweld gostyngiad o ran achosion llwyth gwaith sy'n aros. Disgwylir y bydd prosesau newydd sy'n caniatáu i swyddogion lleol ymchwilio i rai achosion penodol o archwiliadau dyfeisiau ffôn symudol ar lefel leol yn arwain at ostyngiad parhaus yn nifer yr achosion sy'n aros. Blaenoriaethwyd y gwaith hwn a cheisiodd y CHTh ar gyfer rhoi'r systemau ar waith.

Mae gwaith yn digwydd o ran cronfa ddata a logisteg i gefnogi cynlluniau Gwarchod Diogelwch Cymunedol. Gofynnodd y CHTh am restr o Gynlluniau GDC posibl a rhai cyfredol.

Roedd Adroddiadau Monitro Perfformiad SCHTh o fis Ionawr wedi'u diweddarau ag atebion y PG ac fe'u cymeradwywyd gan yr aelodau ar gyfer eu cyhoeddi.

Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 5 – Sicrhau Safonau Proffesiynoldeb Uchel

Crynhodd RL yr adroddiad gan dynnu sylw at bwyntiau pwysig ym mhob adran.

Diweddariad ynghylch yr Adran Safonau Proffesiynol

Nodwyd gwelliant sylweddol o ran amseroldeb cofnodi cwynion yn erbyn yr un cyfnod y llynedd. Yn y flwyddyn hyd yn hyn, roedd yr amser a gymerir i ymchwilio i achosion ar gyfer Datrysiaid Lleol wedi gostwng o 16 diwrnod ac nid 26 diwrnod fel sydd wedi'i

gofnodi yn yr adroddiad. Darparodd RL reswm dros y cynnydd o ran amser a gymerir i derfynu achosion drwy ymchwiliad lleol. Roedd gwelliant o ran ansawdd ymchwiliadau wedi gweld gostyngiad yn nifer yr apeliadau a glywir gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu sy'n cael eu cynnal. Cyfeiriodd RL at gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod yr amser a gymerir i ymchwilio i gwynion yn parhau i ostwng gan ganiatáu ar gyfer nifer isel o apeliadau llwyddiannus i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Disgwylir i amserlen hyfforddi sydd wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth/Ebrill 2016 ar gyfer pob goruchwylydd rheng flaen sy'n ymdrin â chwynion a newidiadau i strwythur a gweithdrefnau gweithio o fewn yr ASP ehangu gwella amseroldeb ymdrin â chwynion.

Roedd y CHTh yn cydnabod y gwelliannau a'r gwaith a gyflawnir, yn arbennig mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn peidio â chofnodi. Tra bod y CHTh yn canmol ac yn croesawu swyddogion lleol yn derbyn mwy o gyfrifoldeb o ran ymdrin â chwynion, mynegodd ei bryderon mewn perthynas â'r amser a gymerir i swyddog heddlu ymchwilio i achosion datrysiadau lleol o'i gymharu â ffigurau'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus; cyfartaledd o 10 diwrnod gwaith gan y SGC o'i gymharu ag 17 diwrnod gan yr heddlu. Pwysleisiodd y CHTh bwysigrwydd annog a phwyso ar swyddogion i ymdrin ag achosion yn brydlon.

Er bod y ffigurau a gyflwynwyd yn galonogol, gofynnodd y CHTh am dderbyn gwybodaeth mewn fformat a oedd yn dangos cysondeb cyfnodau er mwyn sylwi ar dueddiadau dros amser.

Dyweddodd RL mai'r ffigurau a gyflwynwyd yw'r rhai mwyaf diweddar gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac roedd yn hapus i ddarparu data yn ôl y gofyn.

Ar gyfer dibenion craffu, gofynnodd KP am grynodedb manwl o'r ffigurau er mwyn adnabod tueddiadau ac am i'r adroddiad gynnwys meysydd camymddygiad a materion disgyblu i ddangos sut mae'r rhain yn cael eu halinio o ran cysondeb prosesau penderfynu ar gyfer swyddogion a staff. Cafwyd trafodaeth o gwmpas cysondeb y broses benderfynu o fewn yr heddlu ac roedd hi'n amlwg bod ymagwedd anghyson ledled y wlad.

Mewn perthynas â'r 'llusgo' a nodwyd, roedd RL yn obeithiol y byddai gwelliannau amlwg i'w gweld ymhen 6 mis.

Mewn perthynas ag achosion ymchwilio lleol a'r 'llusgo' o ran achosion hanesyddol, cwestiynodd SR pa un ai a oedd unrhyw waith wedi'i wneud o gwmpas gwella amserau ymchwilio. Roedd hi'n galonogol fod y panel preswylwyr wedi nodi gwelliant sylweddol o ran ansawdd ac amseroldeb achosion, ond nid oedd gwaith ystadegol manwl wedi'i wneud.

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ynghylch achosion 'llusgo' mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: Ar gyfer dibenion craffu, SCHTh i ddiffinio gwybodaeth a geisiwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â chwynion, fetio a cheisiadau Rhyddid

Gwybodaeth. Ceisiwyd gwybodaeth safonol ar ddsbarthu ffigurau a sut y gosodir ffigurau allan mewn cyd-destun.

Fetio

Roedd ystadegau'r Uned Fetio'n dangos bod gwaith sylweddol wedi'i wneud, ond nid oedd canllawiau cenedlaethol na chymaryddion ar gael ar amseroldeb ceisiadau fetio. Pan fydd yn cael ei orfodi, bydd y Cod Ymarfer Fetio'n creu gwaith sylweddol o ran ail-fetio nifer o aelodau staff ar adegau penodol yn eu gwasanaeth.

Cwestiynodd y CHTH weithdrefnau fetio'r heddlu yng ngoleuni rhai pryderon a ddygwyd i'w sylw o gwmpas oedi o ran rhai achosion penodol.

Cadarnhaodd RL bresenoldeb swyddogion fetio yn y cyfarfodydd fetio cenedlaethol i sicrhau rhywfaint o gysondeb ac roedd yn hyderus bod polisïau cenedlaethol yn cael eu dilyn.

Gofynnodd y CHTH am i ffigurau ddangos yr amser a gymerir ar bob achos a'r modd y rhennir achosion i werthfawrogi unrhyw oedi, ac i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn y drafodaeth perfformiad nesaf.

Cwestiynodd y CHTH yr oedi o ran mabwysiadu'r Cod Ymarfer Fetio. Dywedodd RL bod yr oedi'n ymwneud yn bennaf â biwrocratiaeth ac roedd Dyfed-Powys wedi dechrau cydymffurfio â'r fformat drafft mewn meysydd eraill sy'n annhebygol o newid.

Ar gyfer dibenion craffu, cytunodd SCHTH i ddiffinio gwybodaeth a geisiwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â chwynion, fetio a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Byddai gwybodaeth safonol ar rannu ffigurau ac eglurhad ynghylch sut y gosodir ffigurau allan mewn cyd-destun yn profi'n fuddiol.

Cam Gweithredu: Gweler Cam Gweithredu PAB 302.

Cod Moeseg

Rhoddodd y DBG/DD gyflwyniad byr i'r Cod Moeseg a oedd yn 'gerbyd' i hyrwyddo a mabwysiadu newid diwylliannol o fewn y gwasanaeth heddlu. Y nod oedd cael Pwyllgor Cod Moeseg llawn sy'n ymdrin yn weithredol â chyfeiriadau erbyn dechrau Ebrill 2016. Cyfeiriodd y CHTH at bryder yn adroddiad Dilysrwydd diweddar AHM ar y Cod Moeseg, nad oedd yn cael ei ddilyn yn ddigonol gan HDP a phwysleisiodd yr angen i fonitro ei effeithiolrwydd. Siaradodd y CHTH am bryder ynghylch yr agwedd broses a chroesawodd eglurder ynghylch y broses.

Esboniodd y DBG/DD nad oedd AHM wedi sylwi ar y mentrau newydd a oedd yn cael eu cyflawni ar y pryd pan gynhaliwyd yr archwiliad oddeutu blwyddyn yn ôl er bod llawer o'r broses mewn grym. Cydnabu'r DBG/DD y gwaith a oedd eto i'w gyflawni i gyfathrebu'r Cod Moeseg yn seiliedig ar y naw egwyddor o fewn y sefydliad. Mewn perthynas â systemau ar gyfer hwyluso cyfathrebu, rhoddodd y DBG/DD drosolwg o'r strwythur a'r

defnydd o gronfa ddata TG i sicrhau proses nad yw'n fiwrocratig i geisio creu proses sy'n addas i bawb.

Yn dilyn cyflwyno'r system riportio 'Bad Apple' o fewn y sefydliad, gofynnodd KP pa un ai a oedd y sefydliad wedi gweld cynnydd o ran adrodd yn fewnol.

Dyweddodd RL bod cynnydd o ran adrodd wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd mwy o adroddiadau wedi'u derbyn ar y system adrodd ddigidol 'Bad Apple' na'r system adrodd dros y ffôn 'Safecall'. Esboniodd RL sut oedd y ddwy system yn wahanol. Nid oedd llawer o'r adroddiadau a dderbyniwyd yn faterion ar gyfer yr uned wrthlygredd. Yn hytrach, roeddent yn faterion a fyddai'n cael eu trin yn fwy priodol gan y Pwyllgor Cod Moseg ar gyfer cyfeirio'n briodol.

Diweddariad Rhyddid Gwybodaeth

Rhoddodd y DBG/DD ddiweddariad Rhyddid Gwybodaeth a oedd yn dangos gwelliant sylweddol o ran perfformiad. Ers cyflwyno'r broses newydd ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth, ni fu unrhyw geisiadau hwyr, adolygiadau mewnol, nac apeliadau.

Croesawodd y CHTH y diweddariad a gofynnodd am gyflwyniad o'r wybodaeth dros amser a gofynnodd pa un ai a oedd data cymharu â heddluoedd eraill ar gael.

Cam Gweithredu: Gweler Cam Gweithredu PAB 302.

Hawliadau Sifil

Derbyniodd y CHTH y data a ddarparwyd ar hawliadau sifil.

Diweddariad Perfformiad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu

Aeth y DBG/DD ymlaen i roi diweddariad o ran perfformiad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, gan gynnwys y cyfnod rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Rhwng Medi a Thachwedd 2015, penodwyd 13 Triniwr Galwadau newydd, ac roedd pob un ohonynt wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol. Roedd tabl yn dangos nifer y galwadau brys a dderbyniwyd gan y cyhoedd a oedd wedi derbyn ymateb o fewn y cyfnod 20 munud. Er bod ychydig o ddirywiad o ran perfformiad wedi'i gofnodi ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r pellter teithio a'r amodau tywydd. Roedd ffigurau o fewn y tablau'n dangos gwelliant cadarnhaol o ran presenoldeb, ac ymddengys fod y prosesau sydd mewn grym o fewn y ganolfan gyfathrebu'n gweithio'n dda.

Cwestiynodd y CHTH y rheswm dros y gwelliant hwn. Esboniodd y DBG/DD fod hyn yn ymwneud ag adnabod newidiadau bychain i weithdrefnau wrth ymateb i alwadau brys; y cynnydd o ran staff yn y ganolfan gyfathrebu a'r amser a gymerir o'r adeg y mae'r triniwr galwadau'n derbyn yr alwad i'r adeg y mae adnoddau'n cael eu lleoli.

Galwadau 999

Roedd nifer y galwadau 999 a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adolygu ychydig yn uwch na'r un cyfnod y llynedd ond nid oedd rheswm amlwg dros y cynnydd hwn. Pwysleisiwyd fod yr Heddlu dal yn ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad, sef y Safon Genedlaethol ar gyfer Trin Galwadau.

Galwadau 101 – Galwadau Saesneg

Roedd recriwtio staff ychwanegol wedi dangos effaith gadarnhaol o ran ateb galwadau Saesneg 101. Atebwyd galwadau ar gyfartaledd o fewn 7 – 14 eiliad, sydd ymhell o fewn y safon genedlaethol trin galwadau, sef 45 eiliad.

Galwadau Cymraeg

Eto, gwelwyd gwelliant oherwydd staff ychwanegol, gyda mwy o staff yn medru siarad Cymraeg. Atebwyd galwadau o fewn 21 – 47 eiliad ar gyfartaledd; eto, y safon genedlaethol trin galwadau yw 45 eiliad.

Ad-drefnu Adrannol

Gosodwyd pwyslais ar ddatrys galwadau yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf i wella profiad y cwsmer wrth ymdrin â Heddlu Dyfed-Powys. Roedd CGH wedi cychwyn rhaglen hyfforddiant i sicrhau bod pob Triniwr Galwadau wedi'i hyfforddi i'r safon uchaf.

Ymgysylltu â Datrysiadau Sector Cyhoeddus Ember

Roedd yr adran wedi ymgysylltu ag Ember, a gomisiynwyd i gynorthwyo'r adran i gyflenwi ei gwasanaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Croesawodd y CHTh y gwelliant a dywedodd fod Ember wedi cyflwyno adroddiad o'u canfyddiadau a oedd yn cydnabod gwaith CGH. Disgwylir trafodaethau ynglŷn â'u cynigion.

Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 5 – Proffesiynoldeb

Crynhodd KP gynnwys yr adroddiad gan nodi nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u cofnodi ers y cyfnod adrodd diwethaf. Nododd KP anghysonder yn y ffigurau a nodir yn yr adroddiad gan fod un achos yn cael ei derfynu adeg cyfarfod BAH ym mis Awst 2015. Roedd ffigurau i'w nodi'n cynnwys 5 cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl; ni chofnodwyd 1 cwyn oherwydd ystyriwyd ei fod yn flinderus; ni chadarnhawyd 2, a chadarnhawyd 2.

Mewn perthynas ag arolygu cwynion yr Heddlu, roedd y Comisiynydd yn cadw arolygiaeth monitro o 7 achos o gwyno drwy Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu. Roedd nifer yr adroddiadau bodlonrwydd ac anfodlonrwydd yr ymdriniodd yr ASP â nhw yn ystod y cyfnod 1 Chwefror 2015 - 31 Ionawr 2016 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ac fel y soniwyd eisoes, roedd y SGC yn cau achosion ynghynt na'r heddlu. O ran perfformiad, roedd y SGC yn cyfeirio 16% o'r achosion a dderbynnir i'r ASP ar gyfer

ystyried pa un ai a oeddent yn gwynion ffurfiol. Cynhaliwyd adroddiad interim o'r SGC ym mis Awst 2015, ac roedd adolygiad blwyddyn lawn ar waith a fydd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Plismona yn gynnar ym mis Mawrth ar gyfer trafod ac ystyried.

O ran craffu ar Ddata'r Heddlu, gan i'r wybodaeth hon gael ei chrynhai dros gyfnodau amser gwahanol, o ran canran, roedd amseroldeb cofnodi ychydig yn is na'r hyn a nodwyd yn Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu, ond roedd yn welliant ar adrodd blaenorol. O ran Datrysiad Lleol neu Ymchwilio Lleol, adleisiodd KP y wybodaeth yr oedd yr Heddlu eisoes wedi'i chynghori o ran yr amser a gymerir i ddatrys rhai o'r achosion hynny a derbyniodd y rhesymwaith y tu ôl i hynny. O ran Ymgysylltu Cyhoeddus, roedd crynodeb yn dangos dyddiadau a lleoliadau Diwrnodau Eich Llais yn y 4 sir. Cyfeiriodd KP at arolygon y Comisiynydd a oedd yn ceisio barn y cyhoedd ar amrediad o faterion. Cyfeiriwyd at annog gwybodaeth ar fonitro'r cyfryngau. Darparwyd gwybodaeth mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mewn perthynas â Gwirfoddolwyr, darparwyd gwybodaeth ar y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, y Cynllun Ymwelwyr Lleyg er Lles Anifeiliaid a'r Panel Preswylwyr. O ran ymweliadau annibynnol â'r ddalfa, bu cynnydd o 51% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014, er bod nifer yr ymwelwyr wedi lleihau. Er bod ymweliadau wedi'u gwneud ar amserau nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r cyfnodau pan oedd y nifer mwyaf o garcharorion yn y ddalfa, cadarnhaodd KP mai'r gwirfoddolwyr sydd i ddewis pryd maen nhw'n ymweld â dalfeydd, ond roedd gwirfoddolwyr yn gwybod pa bryd y mae'r amserau prysuraf yn y ddalfa ac fe'u hanogir i gynnal ymweliadau yn ystod yr amserau hynny.

Diolchodd y CHTh i KP am yr adroddiad a thynnodd sylw at y pryder ymhlyg o fewn adroddiad AHM am achosion nad ydynt yn cyrraedd yr ASP. Dyfynnodd y Comisiynydd ffigurau o fewn yr adroddiad. Roedd y CHTh wedi ysgrifennu at AHM i gwestiynu'r pryderon ymhlyg, a disgwylir ymateb.

Cynigiodd RL ei gefnogaeth i waith yr ASP ac eglurodd y prosesau a oedd mewn grym yn yr ASP adeg yr archwiliad o'i gymharu â nawr.

Mewn perthynas â chyflwyno ac arddangos gwybodaeth, cadarnhaodd y CHTh y math o wybodaeth sydd angen mewn cyflwyniadau yn y dyfodol h.y. gwybodaeth ar rannu achosion yn hytrach na gwybodaeth am gyfartaleddau.

Cam Gweithredu: Gweler Cam Gweithredu PAB 302.

Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh

Yn dilyn egwyl fer, tynnodd SR sylw'r cyfarfod at y nodweddion allweddol o fewn adroddiad perfformiad mis Chwefror sy'n amlinellu pob blaenoriaeth. Roedd SCHTh wedi paratoi cwestiynau penodol mewn perthynas â diogelu pobl sy'n agored i niwed cyn y cyfarfod, a oedd wedi'u dosbarthu i'r heddlu. Yn y cyfarfod, atebodd yr Heddlu'r cwestiynau hynny, a byddai'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei ddiweddarau gydag ymatebion yr heddlu.

Fel cyflwyniad i'r cwestiynau sydd wedi'u paratoi ar gyfer y Prif Gwnstabl, cyfeiriodd y CHTh at adroddiad archwiliad AHM. Er ei fod yn cydnabod gwelliannau o fewn yr Heddlu, pwysleisiodd y CHTh rai meysydd pryder sydd dal yn bodoli o gwmpas meysydd gweithredu sensitif.

Cyfeiriodd y DBG/DD at y 4 prif faes pryder a sefydlu'r Grŵp Bregusrwydd Strategol yn dilyn hynny i gynnwys partneriaid allweddol yn Nyfed-Powys er mwyn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad a phob maes gwella arall mewn perthynas â diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Cafwyd trafodaeth hir am blant a phobl ifainc yn nalfa'r heddlu a diffyg argaeledd llety diogel yn yr ardal heddlu. Eglurodd SC y trefniadau cyfredol a'r galw am ddarpariaeth llety diogel ac addas. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd HDP yn gosod gofal gormodol ar gadw plant sy'n agored i niwed yn y ddalfa pan ddylent fod yn edrych rywle arall. Cyfeiriodd SC at welliannau sylweddol o ran ymarfer a'r hyfforddiant dalfeydd a ddechreuwyd o fewn yr Heddlu.

Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu canfyddiadau ei adolygiad ar achosion lle cedwir plant a phobl ifainc yn y ddalfa.

Wrth drafod proffil problemus camfanteisio'n rhywiol ar blant, cyfeiriodd y DBG/DD at y gwaith a wnaed gan arwain at gynhyrchu fersiwn newydd o broffil problemus. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltiad llawn gan bartneriaid a sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys gwasanaethau plant yr heddlu a data iechyd pob plentyn sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol. Byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â bylchau o ran darpariaeth gwasanaeth. Cyfeiriodd SC at waith ymgysylltu â gwasanaethau cyflafareddu o gwmpas plant coll.

Cam Gweithredu: Yr heddlu i rannu ei gopi o ddata proffiliau problemus amlasiantaeth mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Cam Gweithredu: SCHTh i gadarnhau darpariaeth o'r gwasanaeth cyflafareddu sydd yn rhan o gytundeb y Comisiynydd â gwasanaeth Llamau.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas polisi'r heddlu mewn sefyllfaoedd lle mae plentyn bregus o dan ymchwiliad yn cael ei gyfeirio at asiantaethau cymorth tra bod ymchwiliad yn digwydd. Hefyd, trafodwyd presenoldeb person addas gyda'r plentyn yn ystod y cyfweiliad cychwynnol. Ceisiodd y CHTh sicrwydd fod swyddogion yn deall yr ymagwedd briodol mewn sefyllfaoedd o'r fath ac yn ystyried yr hyn sydd o'r budd mwyaf i'r plentyn.

Wrth drafod adolygiad AHM ac agweddau o achosion diogelu plant sydd angen gwella, crynhodd y DBG/DD y chwe achos sydd angen eu gwella. Roedd y rhain i gyda wedi'u hadolygu ac roedd camau gweithredu adferol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â materion, gyda pholisïau'n cael eu diweddarau lle bod angen. Cwestiynodd y CHTh pa wersi generig sydd wedi'u cymryd o hynny. Roedd SC yn hapus i rannu'r gwaith archwilio a gynhaliwyd o ganlyniad â SCHTh. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd swyddogion sy'n ymdrin ag

achosion diogelu plant wedi'u hyfforddi yn y maes arbenigol gofynnol. Darparodd SC wybodaeth ar hyfforddi swyddogion â sgiliau arbenigol ac roedd SC yn hyderus fod y materion hynny wedi'u trin. Mynegodd y CHTh bryder fod swyddogion arbenigol hyfforddedig yn gwneud camgymeriadau. Cadarnhaodd SC y byddai unrhyw faterion yn cael eu codi drwy archwiliadau rheolaidd a'r dysgu'n cael ei gymryd o'r archwiliadau hynny.

Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu ei archwiliad o'r ymchwiliad i achosion diogelu plant â'r Comisiynydd, ac SR i gwrdd â'r Heddlu i edrych ar archwiliadau eraill o ran y maes diogelu'r cyhoedd.

Darparodd y DBG/DD esboniad ar y canfyddiadau pryderus o ran cadw plentyn bregus 14 oed. Cododd y CHTh y mater o gofnodi troseddau'n gywir gan werthfawrogi'r sefyllfa gymhleth ac ingol. Diolchodd y CHTh i'r DBG/DD am yr esboniad ac am y sicrwydd fod y mater wedi'i gofnodi'n briodol ar y pryd.

Cwestiynodd y CHTh pa gamau gweithredu oedd yn dilyn yn benodol o'r adroddiad hwn, bodolaeth cynllun gweithredu, y sefyllfa bresennol, a phryd oedd SC yn disgwyl canlyniad terfynol.

Cadarnhaodd SC fod cynllun gweithredu mewn grym mewn perthynas â'r archwiliad diogelu plant, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Roedd SC yn hapus i rannu'r diweddariad diweddaraf, a adolygir bob tri mis gyda chamau gweithredu allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol sy'n cael ei gadeirio gan y PGC.

Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi diweddariad i'r CHTh ar y sefyllfa mewn perthynas â'i waith archwilio cyfredol o ran diogelu plant a'r diweddariad dilynol ymhen 3 mis.

Fel pwynt arsylwi, sylwodd y CHTh fod llawer o'r pwyntiau a wnaed o fewn yr adroddiad archwilio'n seiliedig ar gyfnod amser pan oedd yr heddlu'n gwneud newidiadau. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd y newidiadau hynny wedi'u hen ymgorffori erbyn hyn. Cadarnhaodd SC fod y newidiadau wedi'u hymgorffori ar y cyfan, gyda rhai agweddau dal yn cael eu cymryd ymlaen. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd unrhyw raglen ddatblygu fawr yn y maes hwn y tu hwnt i'r pryderon a godwyd. Cyfeiriodd SC at gynrychiolaeth ar y Pwyllgor Diogelu Plant Cenedlaethol a'r Bwrdd Cenedlaethol gan edrych ar feysydd ar gyfer gwella diogelu plant.

Cadarnhaodd y DBG/DD bod systemau mewn grym gan yr heddlu erbyn hyn i sicrhau bod Arolygiaeth EM yn adolygu pob adroddiad a chynllun gweithredu.

Diolchodd y CHTh i'r DBG/DD a SC am eu hymatebion i'r cwestiynau.

Cwestiynau o Gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion

Roedd cwestiwn y CHTH yn ymwneud ag Ymgyrch Celtic wedi'i drin drwy drafodaethau cynharach.

O dan y Strategaeth Plismona Gwledig, calonogwyd y CHTH gan gyflwyniad Swyddogion Cyswllt Gwledig a chynnydd o ran ymgysylltiad drwy orsafoedd heddlu symudol.

Cadarnhaodd y CHTH fod cam gweithredu sydd heb ei gwblhau mewn perthynas â'r System Negeseuon Cymunedol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona cyn hir.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 17/02/2016		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	I'w symud yn ei flaen gan
PAB 302	Ar gyfer dibenion craffu, SCHTh i ddiffinio gwybodaeth a geisiwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â chwynion, fetio a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Ceisiwyd gwybodaeth safonol ar ddsbarthu ffigurau a sut y gosodir ffigurau allan mewn cyd-destun.	SCCH/Heddlu
PAB 303	Yr Heddlu i rannu canfyddiadau ei adolygiad ar achosion lle cedwir plant a phobl ifainc yn y ddalfa.	Heddlu
PAB 304	Yr heddlu i rannu ei gopi o ddata proffiliau problemus amlasiantaeth mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.	Heddlu
PAB 305	SCHTh i gadarnhau darpariaeth o'r gwasanaeth cyflafareddu sydd yn rhan o gytundeb y Comisiynydd â gwasanaeth Llamau.	SCHTh
PAB 306	Yr Heddlu i rannu ei archwiliad o'r ymchwiliad i achosion diogelu plant â'r Comisiynydd, ac SR i gwrdd â'r Heddlu i edrych ar archwiliadau eraill o ran y maes diogelu'r cyhoedd.	Heddlu/SR
PAB 307	Yr Heddlu i roi diweddariad i'r CHTH ar y sefyllfa mewn perthynas â'i waith archwilio cyfredol o ran diogelu plant a'r diweddariad dilynol ymhen 3 mis.	Heddlu

Doedd dim busnes arall a daethpwyd â'r cyfarfod i ben am 12.20y.p.